# Darganfod Sir Ddinbych
# Discover Denbighshire




**01978 860828**

discoverdenbighshire.co.uk

northeastwales.co.uk

medieval-wales.com

clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk

Darganfod Sir Ddinbych
Discover Denbighshire

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

NORTH EAST WALES Denbighshire. Flintshire. Wrexham Altogether brilliant

GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU Sir Ddinbych. Sir y Fflint. Wrecsam Gwych gyda'n gilydd


**Ffotograffau / Photography**
© Hawlfraint y Goron (2014) Croeso Cymru / © Crown copyright (2014) Visit Wales, White Fox, Laurence Crossman-Emms

**dylunio/design** White Fox 01352 840898 www.whitefox-design.co.uk



## Tref i bob diwrnod


Nid Dinbych yw'r unig dref yn Sir Ddinbych gyda llwybr ei hun. Mae saith llwybr arall – pob un yn llawn o ddiddordeb hanesyddol. Ond pob un yn wahanol iawn, gyda'r gobaith y byddwch yn darganfod hynny dros eich hunain. Cyn belled â bod gennych wythnos neu ddwy arall i'w sbario.


## A town for every day


Denbigh isn't the only town in Denbighshire with its very own trail. There are seven others – all packed with historic interest. But all very different, as we hope you'll discover for yourself. Just as long as you have another week or so to spare.

Ewch i Rhuthun i weld yr oriel celfyddydau cymhwysol gorau yng Nghymru, Llangollen am ei rheilffordd stêm estynedig newydd, Corwen i weld cofeb un o arwyr mwyaf Cymru a Dinbych am ei chastell ar ben y bryn a muriau tref atgofus.

















Visit Ruthin for the best applied arts gallery in Wales, Llangollen for its newly extended steam railway, Corwen for a stirring memorial to Wales's greatest hero and Denbigh for its hilltop castle and evocative town walls.

Ewch i'r Rhyl ar gyfer ei phromenâd a thair milltir o dywod euraidd, Prestatyn ar gyfer dechrau Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa, Rhuddlan am ei chastell ar lan yr afon a Llanelwy i weld y gadeirlan hynafol leiaf ym Mhrydain.




Visit Rhyl for its promenade and three miles of golden sands, Prestatyn for the start of Offa's Dyke Path National Trail, Rhuddlan for its stupendous riverside castle and St Asaph for the smallest ancient cathedral in Britain.

## Eich antur yn Sir Ddinbych

Trefi marchnad llawn prysurdeb. Diwylliant Cymreig unigryw. Bwyd a diod blasus. Un o'r tirweddau gwarchodedig harddaf yng Nghymru.

Bydd y syniadau'n byrlymu ar gyfer pethau i'w gwneud yn Sir Ddinbych. Ond rhag ofn... dyma ychydig o anturiaethau y dylech roi cynnig arnynt – a gallwch eu llwytho i lawr yn syth i'ch ffôn symudol.

Efallai yr hoffech roi cynnig ar weithgaredd greadigol, cael hwyl gyda'ch plant neu ymweld â hen adeiladau. Efallai bod gennych ddiddordeb mewn hanes cymdeithasol, teithiau cerdded yng nghefn gwlad neu deithiau trefol. Beth bynnag sydd at eich dant, mae 'na Antur Ddigidol Sir Ddinbych ar eich cyfer chi.

Yn Ninbych ei hun, gallwch fraslunio adeiladau hanesyddol y dref, clywed Côr Meibion Dinbych neu wneud collage natur wedi'i ysbrydoli gan Beatrix Potter. Ac nid dyna'r cyfan. Ewch i'r wefan i roi Sir Ddinbych gyfan ar flaenau eich bysedd.

**digidolsirddinbych.co.uk**

## Your Denbighshire adventure

Bustling market towns. A unique Welsh culture. Delicious food and drink. One of the most beautiful protected landscapes in Wales.


You won't find yourself too short of ideas about what to do in Denbighshire. But just in case we've come up with a few adventures for you try – and you can download them straight to your mobile.

You might like getting creative, fun with your kids or visiting old buildings. You might be into social history, country walks or urban strolls. Whatever you want, there's a Denbighshire Digital Adventure just for you.

In Denbigh alone you can sketch the town's historic buildings, hear Denbigh Male Voice Choir or make nature collages inspired by Beatrix Potter. And it doesn't stop there. Just visit the website to have the whole of Denbighshire at your fingertips.

**digitaldenbighshire.co.uk**





# Dinbych
# Denbigh

llwybr y dref
town trail

sir ddinbych
denbighshire

# Darganfod Dinbych

Dyma hanes dwy dref. Un ohonynt yw tref garsiwn gaerog fawr Edward I, gyda'i chastell eiconig, a adeiladwyd yn ddidrugaredd ar ben caer Gymreig hynafol. Y llall yw'r dref farchnad brysur sy'n rhaeadru i lawr y bryn mewn amrywiaeth rhyfeddol o arddulliau pensaernïol dros y naw canrif nesaf.

Daeth Dinbych yn rym y tu ôl i Ddadeni Cymru. Ddiwedd yr 16eg ganrif, roedd yn ganolbwynt i ymgyrch gan Robert Dudley, Iarll Caerlŷr, i sicrhau mai ef fyddai dyn mwyaf pwerus y wlad. Yn ddiweddarach codwyd cyfres o blastai godidog i lawr Stryd y Dyffryn.

Mae'r llwybr yn eich galluogi i archwilio llawer o'r adeiladau hanesyddol gwych sydd wedi goroesi. Mwy o adeiladau rhestredig, yn wir, nag mewn unrhyw dref arall yng Nghymru.

# Exploring Denbigh

This is a tale of two towns. One is the great walled garrison of Edward I with its iconic castle, ruthlessly built on top of an ancient Welsh fortress. The other is the exuberant market town that cascaded down the hill in an astonishing variety of architectural styles over the next nine centuries.

Denbigh became a powerhouse of Renaissance Wales. In the late 16th century it was at the centre of the campaign by Robert Dudley, Earl of Leicester, to make himself the most powerful man in the country. Later a series of magnificent mansions spread down Vale Street.

This trail allows you to explore many of the wonderful historic buildings that remain. More listed buildings, in fact, than in any other town in Wales.







# Beth sy'n ei wneud yn arbennig?

Mae Dinbych mewn lleoliad gwirioneddol ysblennydd – ei chastell yn goron ar fryn creigiog gyda golygfeydd ar draws Dyffryn Clwyd gyfan, o wylltineb Mynydd Hiraethog i Fryniau Clwyd.

Mae'n lleoliad gwych ar gyfer cerddwyr, yn ganolfan ddiwylliannol ac yn ganolbwynt ffyniannus lle mae'n braf gweld fod y siopau a'r caffis yn dal i fod yn annibynnol, mae Dinbych yn cynnig profiad gwirioneddol Gymreig. Heb sôn am groeso cynnes iawn.

Mor gynnes yn wir fel y gall ymwelwyr fenthyg eu goriadau eu hunain i furiau'r dref. Galwch heibio yn y llyfrgell a gofynnwch am y cyfle i ddatgloi un o gyfrinachau gorau Cymru.

I wybod mwy, codwch gopi o "Mwynhau Sir Ddinbych Ganoloesol" neu ewch i medieval-wales.com

# What makes it special?

Denbigh enjoys a genuinely spectacular setting – its castle crowns a rocky hill with views across the whole Vale of Clwyd, from the wild Hiraethog Moors to the Clwydian Range.

A great base for walking, a cultural centre and a thriving hub where the shops and cafés are still refreshingly independent, Denbigh delivers an authentically Welsh experience. Not to mention a very warm welcome.

So warm in fact that visitors can borrow their very own keys to the town walls. Call in at the library and ask for the chance to unlock one of Wales's best-kept secrets.

To find out more, pick up a copy of "Enjoy Medieval Denbighshire" or visit medieval-wales.com

# Ble awn ni nesaf?

Dylai siopau, tafarndai, tai bwyta ac adeiladau hanesyddol Dinbych fod yn fwy na digon i'ch cadw chi'n brysur. Ond os ydych chi'n penderfynu symud ymlaen, byddwch yn dod ar draws rhai o brif atyniadau Gogledd Cymru dim ond ychydig filltiroedd i ffwrdd.

# Where shall we go next?

The shops, pubs, restaurants and historic buildings of Denbigh should be more than enough to keep you busy. But if you do decide to move on, you'll find some of the leading attractions of North Wales just a few miles away.

### Carchar Rhuthun

Archwiliwch gell y dyn condemniedig a chlywed am "yr Houdini Cymreig" yn y carchar Fictoraidd atgofus hwn.

carcharrhuthun.co.uk
01824 708281



### Ruthin Gaol

Explore the condemned man's cell and hear about "the Welsh Houdini" at this evocative Victorian prison.

ruthingaol.co.uk
01824 708281

### Eglwys Gadeiriol Llanelwy

Dyma eglwys gadeiriol hynafol leiaf Prydain, ond mae hefyd yn gartref i'r Beibl Cymraeg cyntaf erioed.

stasaph.churchinwales.org.uk 01745 582245



### St Asaph Cathedral

Not just Britain's smallest ancient cathedral but also the home of the very first Welsh language Bible.

stasaph.churchinwales.org.uk 01745 582245

### Castell a Pharc Bodelwyddan

Tŷ hanesyddol, amgueddfa a lleoliad lloeren yr Oriel Bortreadau Genedlaethol – gyda'i gae chwarae antur ei hun.

bodelwyddan-castle.co.uk 01745 584060



### Bodelwyddan Castle and Park

Historic house, museum and outpost of the National Portrait Gallery – with its own adventure playground.

bodelwyddan-castle.co.uk 01745 584060

# 1 Lôn Gefn

**Sefwch yn y maes parcio gydag Eglwys fawreddog y Santes Fair y tu ôl i chi ac ewch i gyfeiriad y llwybr wrth ymyl y Eagles Inn.**

Arferai Lôn Gefn fod yn rhan o'r farchnad ganoloesol ac mae'n cynnwys adeiladau hynaf Dinbych nad ydynt yn gysylltiedig â'r castell neu muriau'r dref. Mae'n debyg bod tafarn y Llew Aur wedi'i chodi ddechrau'r 16eg ganrif fel dwy siop ar wahân. Fe sylwch hefyd ar gefn 33 Stryd Fawr, sy'n fwy adnabyddus fel Siop Clwyd. Diolch i dendrocronoleg, neu ddyddio yn ôl cylchoedd coed, rydym yn gwybod bod yr adeilad ffrâm bren bach a cham hwn yn dyddio o 1533, gan ei wneud yn un o siopau hynaf Cymru.



# 1 Back Row

**Stand in the car park with imposing St Mary's Church at your back and head for the passageway beside the Eagles Inn.**

Back Row was once part of the medieval marketplace and contains the oldest buildings in Denbigh not connected with the castle or town walls. The Golden Lion pub was probably built in the early 16th century as two separate shops. You'll also notice the back of 33 High Street, better known as Siop Clwyd. Thanks to dendrochronology, or tree-ring dating, we know this crooked little timber-framed building dates from 1533, making it one of the oldest shops in Wales.

# Llwybr y dref


| | |
|---|---|
| **Pellter** | 1.25 milltir / 2 km gan gynnwys Stryd y Dyffryn |
| **Pa mor anodd yw'r llwybr?** | Rhai rhannau cymedrol i fyny allt, arwyneb anwastad ar furiau'r dref |
| **Amser yn cerdded** | 75 munud |
| **Man cychwyn** | Maes parcio Factory Place LL16 3TS |
| **Cludiant cyhoeddus** | Traveline Cymru 0871 200 2233, Ymholiadau Rheilffyrdd Cenedlaethol 08457 484950 |

# Town trail

| | |
|---|---|
| **Distance** | 1.25 miles / 2 km including Vale Street |
| **Difficulty** | Some moderate uphill sections, uneven surface on town walls |
| **Walking time** | 75 minutes |
| **Start point** | Factory Place car park LL16 3TS |
| **Public transport** | Traveline Cymru 0871 200 2233, National Rail Enquiries 08457 484950 |

# 6 Eglwys Leicester

Efallai eich bod eisoes wedi gweld adfail di-do Eglwys Leicester o furiau'r dref. Os naddo, edrychwch amdano ar y chwith wrth i chi gerdded i fyny Bull Lane. Dyma'r cyfan sy'n weddill o uchelgais fawreddog un dyn. Dechreuodd Robert Dudley, Iarll Caerlŷr a ffefryn Elisabeth I, waith ar yr eglwys 10 bwa ym 1578. Mae'n debyg mai'r bwriad oedd creu eglwys gadeiriol Brotestannaidd newydd, gydag arddull Gothig ar y tu allan a chlasurol ar y tu mewn, hon fyddai wedi bod yn eglwys fwyaf oes Elisabeth. Ond ni chafodd ei chwblhau. Bron mor gyflym ag y gallai'r amhoblogaidd Dudley godi'r cerrig, roedd pobl leol yn eu tynnu i lawr. Nid oedd mwy o arian ar ôl a gadawodd ei gynllun mawreddog i drugaredd yr elfennau ym 1584.



# 6 Leicester's Church

You may already have seen the roofless ruin of Leicester's Church from the town walls. If not, look out for it on the left as you walk up Bull Lane. This is all that remains of one man's vaulting ambition. Robert Dudley, Earl of Leicester and favourite of Elizabeth I, began this 10-bay arcaded church in 1578. Probably intended as a new Protestant cathedral, Gothic on the outside with a classical interior, it would have been the largest church of the Elizabethan age. But it was never finished. Almost as fast as the unpopular Dudley could raise the stones, local people pulled them down. He ran out of money and abandoned his grand scheme to the elements in 1584.

# 2 Llyfrgell Dinbych

**Trowch i'r dde i mewn i Sgwâr y Goron a cherddwch heibio'r gofeb ryfel gan Charles Leonard Hartwell i gyfeiriad y llyfrgell.**

Mae'r cerflun y tu allan i'r llyfrgell ac oriel gelf o'r fforiwr Fictoraidd dadleuol HM Stanley, a anwyd yn Ninbych ym 1841. Y tu mewn mae cast plastr ychydig yn arswydus o'i law, a estynnodd unwaith wrth ddweud y geiriau enwog: "Dr Livingstone, I presume?" Ar gael yma hefyd mae wifi am ddim ac, am flaendal bychan, eich goriad eich hun i furiau'r dref (gweler rhif 5). Adeiladwyd y llyfrgell fel Neuadd y Sir ym 1572 gan Iarll Caerlŷr – mwy amdano ef yn nes ymlaen. Roedd y colofnresi yn agored yn y dyddiau hynny i wneud lle i Neuadd y Farchnad.




# 2 Denbigh Library

**Turn right into Crown Square and walk past the war memorial by Charles Leonard Hartwell towards the library.**

The statue outside the library and art gallery is of controversial Victorian explorer H M Stanley, born in Denbigh in 1841. Inside is a slightly spooky plaster cast of his hand, once famously outstretched with the words: "Dr Livingstone, I presume?" You'll also find free wifi and, for a small deposit, your very own key to the town walls (see number 5). The library was built as a Shire Hall in 1572 by the Earl of Leicester – more of him later. The colonnades were open in those days to accommodate a Market Hall.

# Dinbych Denbigh




darganfodsirddinbych.co.uk discoverdenbighshire.co.uk

# 7 Capel St Hilari

Mae'r tŵr ynysig hwn yn dal yn drawiadol ddigon. Ond ar un adeg roedd gan St Hilary, a adeiladwyd yn tua 1300 fel capel garsiwn i dref gaerog Edward I, gorff eglwys, cangell, ystlys ogleddol a thŵr gorllewinol hefyd. Erbyn y cyfnod Fictoraidd, roedd yn dirywio'n wael ac roedd eglwyswyr yn wynebu dewis anodd: talu am waith atgyweirio costus neu adeiladu eglwys arall mewn man mwy cyfleus. Doedd dim amheuaeth. Agorwyd Eglwys y Santes Fair gyda'i ffenestri lliw Celf a Chrefft hyfryd ym 1875 – a chafodd popeth heb law am dŵr herfeiddiol St Hilari eu dymchwel o'r diwedd ym 1923.



# 7 St Hilary's Chapel

The isolated tower is still impressive enough. But St Hilary's, built about 1300 as a garrison chapel to Edward I's fortified town, once had a nave, chancel, north aisle and west tower too. By the Victorian era, it was badly decaying and churchgoers faced a stark choice: fork out for expensive repairs or build another church is a more convenient spot. No contest. St Mary's Church with its lovely Arts and Crafts stained glass windows was opened in 1875 – and all but the defiant tower of St Hilary's was finally demolished in 1923.

# 3 Lôn Brombil

**Edrychwch am yr arwydd i'r castell wrth ymyl tafarn yr Old Vaults.**

Mae llawer o siopau annibynnol hynod a thafarndai a chaffis bywiog Dinbych wedi'u clystyru rhwng y Stryd Fawr a chylchfan Lenten Pool, a oedd ar un adeg yn bwll pysgod canoloesol. Felly, mae pob croeso i chi newid cyfeiriad yn y fan hon cyn dychwelyd i Lôn Brombil. Roedd hon ar un adeg yn llwybr tawel yn cysylltu'r dref a'r castell, a ddefnyddiwyd yn bennaf gan bobl leol – ond erbyn hyn mae'r gyfrinach wedi'i thorri. Mae wedi cael ei thrawsnewid gan ddim llai na phum artist gyda chymorth cerddi, cerfluniau, griliau ffenestri addurniadol, goleuadau uwchben a hyd yn oed gorchuddion cyfleustodau newydd, y cyfan yn seiliedig ar dreftadaeth unigryw Dinbych neu hanesion o'r Mabinogion.




# 3 Broomhill Lane


**Look out for the signpost to the castle beside the Old Vaults pub.**

Many of Denbigh's quirky independent shops and lively pubs and cafés are clustered between High Street and the Lenten Pool roundabout, once a medieval fish pond. So feel free to make a detour at this point before returning to Broomhill Lane. This was once a quiet passageway linking town and castle, used mainly by local people – but now the secret's out. It's been transformed by no fewer than five artists with the help of poems, sculptures, decorative window grilles, overhead lights and even new utility covers, all based on Denbigh's unique heritage or stories from the Mabinogion.

# 8 Castell Dinbych

Camwch i mewn i borthdy tri thŵr mawreddog Castell Dinbych ac rydych yn sicr o deimlo ymchwydd o gyffro. Byddwch hefyd yn clywed twrw codi'r porthcwlis a throedio trwm milwyr yn gorymdeithio, diolch i'r ceidwaid Cadw. Bydd eu canolfan ymwelwyr ecogyfeillgar yn dweud y cyfan wrthych am y gaer Edwardaidd glasurol hon, a adeiladwyd fel rhan o "gylch haearn" o gestyll Saesnig ddiwedd y 13eg ganrif i ddarostwng y Cymry. Nid oedd yn lwyddiant ar y dechrau. Cipiodd Madog ap Llywelyn y castell a adeiladwyd yn rhannol ym 1294 ac, pan wnaethant ei gipio yn ôl yn y pen draw, gwnaeth y Saeson y waliau hyd yn oed yn fwy trwchus ac yn uwch.

www.cadw.cymru.gov.uk




# 8 Denbigh Castle

Step into the immense triple-towered gatehouse of Denbigh Castle and you're sure to feel a surge of excitement. You'll also hear the clatter of a rising portcullis and the heavy tread of marching solders, thanks to custodians Cadw. Their eco-friendly visitor centre will tell you all about this classic Edwardian fortress, built as part of an "iron ring" of late 13th century English castles to subdue the Welsh. It didn't succeed at first. Madog ap Llywelyn captured the partly-built castle in 1294 and, when they eventually got it back, the English made the walls even thicker and higher.

www.cadw.wales.gov.uk

# 4 Porth Burgess

Rydych rŵan yn cyrraedd tref gaerog ganoloesol Edward I. Adeiladwyd yr enfawr Porth Burgess a'i dyrrau dwbl rhwng 1282 a 1294 gan ei farwn Henry de Lacy, Iarll Lincoln. Yn wreiddiol roedd yn 60 troedfedd o uchder ac yn llawn amddiffynfeydd gan gynnwys ffos, pont, porthcwlis a thyllau llofruddio, ac mae'n debyg iddo gael ei ddylunio gan hoff bensaer milwrol Edward, sef James o St George. Gwelodd ddigon o gyffro yn ystod gwarchae enwog Dinbych yn ystod y Rhyfel Cartref – gallwch weld y creithiau a achoswyd gan ynnau mawr a daniwyd gan y lluoedd seneddol. Daw golygfeydd ysblennydd dros y dref i'r amlwg wrth i chi fynd o dan y giât a mynd am dro ar hyd Leicester Terrace.



# 4 Burgess Gate

You're now entering the medieval walled town of Edward I. The immense twin-towered Burgess Gate was built between 1282 and 1294 by his baron Henry de Lacy, Earl of Lincoln. Originally 60 feet high and bristling with defences including a ditch, bridge, portcullis and murder-holes, it was most likely the design of Edward's favourite military architect, James of St George. It saw plenty of action during the famous siege of Denbigh during the Civil War – you can still see the scars caused by cannon fire from the parliamentary forces. Spectacular views over the town emerge as you pass under the gate and stroll along Leicester Terrace.

# 9 Stryd y Dyffryn

**Dychwelwch eich goriad i'r llyfrgell ac, os dymunwch, ychwanegwch y dargyfeiriad hwn.**

Hyd yn oed yn Ninbych, gyda'i chyfoeth o adeiladau rhestredig, mae Stryd y Dyffryn yn ryfeddod pensaernïol. Wrth i'r dref ffynnu, codwyd cyfres o dai bonedd yma i greu ardal breswyl benodol. Mae'r cynharaf, Y Gelli neu Grove House, yn dyddio o 1574 – gan ei wneud yn un o'r tai brics cyntaf yng Nghymru. Mae'r gweddill, fel Tŷ Mostyn neu Plas Grove, yn dyddio'n bennaf o'r 18 ganrif neu ddechrau'r 19 ganrif. Chwiliwch am Dŷ Thomas Gee ar y chwith, sef cartref y pregethwr Anghydffurfiol chwedlonol a chyhoeddwr. Mae Argraffdy Gwasg Gee, a oedd yn dal i redeg tan 2001, i'w weld o hyd ar Lôn Swan.



# 9 Vale Street

**Return your key to the library and, if you wish, add this detour up and down Vale Street.**

Even in Denbigh, with its wealth of listed buildings, Vale Street is an architectural marvel. As the town prospered, a series of gentry houses was built here to create a distinct residential quarter. The earliest, Grove House or Y Gelli, dates from 1574 – making it one of the first brick houses in Wales. The rest, such as Mostyn House or Grove Place, are mostly 18th or early 19th century. Look out on the left for Tŷ Thomas Gee, home of the legendary Nonconformist preacher and publisher. His Gwasg Gee printworks, which ran until 2001, can still be seen on Chapel Street.

# 5 Muriau'r Dref

**Cewch fynediad at y muriau ar hyd y ramp gyferbyn â Leicester Terrace.**

Oes gennych chi eich goriad? Os nad oes, dychwelyd i'r llyfrgell neu holwch yn y castell. Wnewch chi ddim difaru – er hynny, gwyliwch am arwynebau anwastad a chwympau heb eu diogelu. Dyma un o'r muriau tref canoloesol mwyaf cyflawn ym Mhrydain. Cawsant eu hadeiladu i ddiogelu bwrdeistref Saesnig newydd ar ben hen gadarnle Cymreig Dafydd ap Gruffydd, ac mae'r muriau a'r tyrau calchfaen hyn yn cynnig golygfeydd trawiadol ar draws Dyffryn Clwyd. Heb sôn am gipolwg bryfoclyd i mewn i rai o erddi cudd Dinbych a theithiau cerdded yn y coetir. Chwiliwch am dŵr gwyn Eglwys Sant Marcella yn y pellter.



# 5 Town Walls

**Access the walls via the ramp opposite Leicester Terrace.**

Do you have your key? If not, return to the library or ask at the castle. You won't regret it – although do watch out for uneven surfaces and unprotected drops. This is one of most complete medieval town walls in Britain. Built to guard a new English borough on top of the old Welsh stronghold of Dafydd ap Gruffydd, these limestone walls and towers provide stunning views over the Vale of Clwyd. Not to mention a tantalising glimpse into some of Denbigh's secret gardens and woodland walks. Look out for the white tower of St Marcella's Church in the distance.

## Tra eich bod yn cerdded....

Cyfrwch y naw blodyn Blodeuwedd yn y cerflun hwn a ysbrydolwyd gan chwedlau gwerin y Mabinogi. Ond a wnaethoch chi sylwi ar y tylluan bach gerllaw y trawsnewidiodd Blodeuwedd iddo?



## While you're walking....

Count the nine flowers of Blodeuwedd in this sculpture inspired by the folk tales of the Mabinogion. But did you spot the little owl nearby into which Blodeuwedd was transformed?

# 10 Gardd Goffa Dr Evan Pierce

Roedd y Crwner, YH, Henadur a Maer Dinbych, Dr Evan Pierce, yn arwr yn epidemig colera 1832. Ond nid oedd gwyleidd-dra yn un o'i gryfderau. Pan gynhigiodd pobl ddiolchgar y dref adeiladu cofeb iddo, rhoddodd y tir iddynt – yn union gyferbyn â'i ddrws ffrynt ym Mhlas Salusbury sydd wedi'i ddymchwel bellach. Fel y gallai edrych bob bore ar ei gerflun ei hun ar ben ei golofn Tysganaidd 72 troedfedd. Diolch i waith adfer yn 2007, y safle heddychlon a dirgel hwn gyda'i ffynhonnau a choed conwydd yw prif ardd hanesyddol Sir Ddinbych.

**Dilynwch eich camau i fyny Stryd y Dyffryn i ddychwelyd i'ch car.**



# 10 Dr Evan Pierce Memorial Garden

Coroner, JP, Alderman and Mayor of Denbigh, Dr Evan Pierce, was a hero of the cholera epidemic of 1832. But modesty wasn't one of his strong points. When the grateful townsfolk offered to build him a memorial, he donated the land himself – right opposite his front door in now-demolished Salusbury Place. So every morning he could look out at his own statue atop its 72-feet high Tuscan column. Thanks to a restoration in 2007, this peaceful and secret spot with its fountains and conifers is the leading historic garden in Denbighshire.

**Retrace your steps up Vale Street to return to your car.**